# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Cyflwyniad*

### 2 Ystyr y prif dermau

(1) Yn y Rhan hon—

ystyr “annedd” (“*dwelling*”) yw adeilad neu ran o adeilad a feddiennir neu y bwriedir ei feddiannu fel annedd ar wahân, ynghyd ag unrhyw fuarth, gardd, tai allan ac atodynnau sy’n perthyn iddo neu a fwynheir gydag ef fel arfer, pan fo’r annedd gyfan yng Nghymru;

ystyr “eiddo ar rent” (“*rental property*”) yw annedd sy’n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig, neu sy’n cael ei marchnata neu ei chynnig i’w gosod o dan denantiaeth o’r fath;

ystyr “landlord” (“*landlord*”)—

(a) mewn perthynas ag annedd sy’n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig, yw’r landlord uniongyrchol neu, mewn perthynas â thenant statudol, y person a fyddai, ar wahân i’r denantiaeth statudol, â’r hawl i feddiannu’r annedd sy’n ddarostyngedig i’r denantiaeth, a

(b) mewn perthynas ag annedd nad yw’n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig, y person a fyddai’n landlord uniongyrchol pe bai’r annedd yn cael ei gosod o dan denantiaeth ddomestig;

ystyr “tenantiaeth ddomestig” (“*domestic tennancy*”) yw—

(a) **[**[F1]tenantiaeth sy’n gontract meddiannaeth, ac eithrio pan fo’r contract meddiannaeth—

(i) yn gontract safonol â chymorth, neu

(ii) hefyd yn les hir at ddibenion Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28) (“Deddf 1993”) neu, yn achos les rhanberchnogaeth (o fewn

yr ystyr a roddir i "shared ownership lease" gan adran 7(7) o Ddeddf 1993), a fyddai'n les o'r fath pe bai cyfran y tenant (o fewn yr ystyr a roddir gan yr adran honno) yn 100 y cant;**]**

(b) tenantiaeth reoleiddiedig at ddibenion Deddf Rhenti 1977, neu

(c) tenantiaeth y mae annedd yn cael ei gosod fel annedd ar wahân oddi tani ac sydd o ddisgrifiad a bennir at ddibenion y Rhan hon mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Yn yr adran hon, ystyr "tenant statudol" a "tenantiaeth statudol" yw tenant statudol neu denantiaeth statudol o fewn yr ystyr a roddir i "statutory tenant" a "statutory tenancy" yn Neddf Rhenti 1977.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 2(1) wedi eu hamnewid (1.12.2022) gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **34(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 2 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**I3** A. 2 mewn grym ar 23.11.2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/1826, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 2.